

# BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN

## CYFLEOEDD GYRFA CYLLID

Developing Finance

ABUHB

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

## CYNNWYS:

Amserlen Recriwtio........................................................................................................1

Gweithio i BIPAB............................................................................................................2

Tîm Datblygu Staff Cyllid..................................................................................................3

Cyllid a Chaffael BIPAB...................................................................................................5

Prentis Cyllid Mewnol...................................................................................................... 6

Graddedigion a Noddir gan Rhwydwaith 75.......................................................................7

Rhaglen Lleoliadau Prifysgol..............................................................................................8

Rhaglen Rheolaeth Ariannol ar gyfer Graddedigion Academi Cyllid GIG ................................9



## Amserlen Recriwtio

| Rhaglen | Sut i ymgeisio | Amserlen recriwtio | Targed dechrau |
|---|---|---|---|
| Prentis Cyllid Mewnol | Trwy Swyddi'r GIG | Medi | Mis Awst dilynol |
| Rhaglen ar gyfer Graddedigion a Noddir gan Rhwydwaith 75 | Gwefan PDC | Medi | Mis Medi dilynol |
| Rhaglen Lleoliad Prifysgol | Tudalennau gwe Gyrfaoedd y Brifysgol | Medi | Mis Gorffennaf dilynol |
| Cynllun Rheoli Ariannol i Raddedigion Academi Cyllid GIG Cymru | Trwy Swyddi'r GIG | Medi | Mis Medi dilynol |

## MANYLION CYSWLLT

I gael rhagor o wybodaeth am weithio i Adrannau Cyllid BIPAB neu am unrhyw un o'n rhaglenni hyfforddi, cysylltwch â'r Tîm Datblygu Staff Cyllid:

E-bost: **ABB.FinanceStaffDevelopment@wales.nhs.uk**

Rhif Ffôn: **01633 623860**



## GWEITHIO I BIPAB

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAP) yn sefydliad GIG sydd wedi ennill sawl gwobr ac sydd ag angerdd am ofalu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gweithle eithriadol lle gallwch deimlo fod pobl yn ymddiried ynoch ac yn eich gwerthfawrogi. Beth bynnag fo'ch arbenigedd neu pa bynnag gyfnod yr ydych ynddo o ran eich gyrfa, mae gennym gyfleoedd ar gyfer pawb er mwyn iddynt allu dechrau, tyfu ac adeiladu gyrfa. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu gofal acíwt, sylfaenol a chymunedol integredig, ac mae'n gwasanaethu poblogaeth o 650,000 ac yn cyflogi dros 16,000 aelod o staff. Rydym yn cynnig pecyn buddion gwych a chyfleoedd hyfforddi a datblygu helaeth gyda hyfforddiant gorfodol â thâl, rhaglenni mewnol rhagorol, cyfleoedd i gwblhau cymwysterau cydnabyddedig a llwybrau gyrfa proffesiynol, gan gynnwys ystod o raglenni datblygu rheolwyr. Rydym yn cynnig gweithio hyblyg ac yn hyrwyddo cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith, yn darparu cymorth iechyd galwedigaethol a chynllun uchelgeisiol ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Lles i'ch cefnogi yn y gwaith.

Mae ein strategaeth Dyfodol Clinigol yn parhau i wella a hyrwyddo gofal yn nes at y cartref, yn ogystal â gofal ysbyty o ansawdd uchel pan fo angen. Mae hyn yn cynnwys Ysbyty Athrofaol y Faenor, sy'n darparu gofal arbenigol a chritigol a dyma'r ychwanegiad diweddaraf at y strategaeth dyfodol clinigol (agorwyd yr ysbyty ym mis Tachwedd 2020). Mae BIPAB yn cynnig y cyfle i fod yn rhan o daith sy'n arloesi gyda ffyrdd newydd o weithio ac sy'n darparu gwasanaeth gofal iechyd o'r radd flaenaf sy'n addas ar gyfer y dyfodol.



## TÎM DATBLYGU STAFF CYLLID

Dechreuodd Rob ei yrfa gyda'r GIG ym 1990 gydag Awdurdod Iechyd De Morgannwg ac mae wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn Ne Cymru

Mae Rob wedi rheoli uwch bortffolios ariannol ar draws y sector iechyd, y sector amddiffyn a'r sector preifat, ac mae wedi bod yn Gyfarwyddwr Cyllid ar gyfer ysbyty acíwt yn Saudi Arabia. Ef oedd Cyfarwyddwr Cyllid Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent cyn cael ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyllid ar gyfer Caffael a Gwerth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.



**Robert Holcombe**

Cyfarwyddwr Cyllid, Caffael a Gwerth

Mae Rob yn gymrawd o Gymdeithas Siartredig y Cyfrifwyr Ardystiedig ac mae ganddo radd meistr mewn Rheoli Cyfrifeg. Astudiodd Rob Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth yn Ysgol Fusnes Harvard, ac mae wedi ymgymryd ag ymweliadau ymchwil gofal iechyd rhyngwladol ac ef yw cynrychiolydd Cymru ar bwyllgor Polisi ac Ymchwil Cenedlaethol Cymdeithas Rheolaeth Ariannol Iechyd.

Mae Rob yn eiriolwr brwd dros wella canlyniadau cleifion drwy'r dull gofal Seiliedig ar Werth a datblygu'r tîm cyllid i ddeall busnes iechyd y tu hwnt i'r cyfriflyfr ariannol.



**Chris Commins**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid, Gwasanaethau a Phartneriaethau y Tu Allan i'r Ysbyty"

Dechreuodd Chris ei yrfa yn y GIG ym 1992 fel Cyfrifydd dan Hyfforddiant yn Awdurdod Iechyd Rhanbarthol De a Gorllewin Lloegr ar ôl cwblhau gradd mewn Cyfrifeg a Chyllid yng Ngholeg Polytechnig Bryste. Cymhwysodd Chris fel Cyfrifydd yn 1999 (ACCA) ac ymgymerodd â rôl Rheoli Cyfrifyddu gyda Gweithrediaeth y GIG (De a Gorllewin) cyn ymuno ag Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent yn 2003.

Mae gan Chris brofiad helaeth fel Partner Busnes Cyllid o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac ym mis Rhagfyr 2018 daeth yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid ar gyfer Gwasanaethau a Phartneriaethau y Tu Allan i'r Ysbyty. Mae Chris yn gyfrifol am Ddatblygu Staff Cyllid, gan gynnwys staff presennol a recriwtio gweithwyr newydd i'r sefydliad trwy amrywiaeth o raglenni.

Cwblhaodd Chris gwrs "Darpar Uwch Arweinwyr Cyllid" yr Academi Gyllid yn 2021 ac mae'n edrych yn ôl ar hyn fel cyfle gwych i rwydweithio ac mae'n annog unrhyw un sydd â diddordeb i wneud cais am gyrsiau perthnasol tebyg fel rhan o'u datblygiad personol eu hunain.

Ar ôl manteisio ar gymorth datblygu rhagorol drwy gydol ei yrfa, mae Chris yn cydnabod pwysigrwydd darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i bob aelod o gymuned y maes Cyllid.

# TÎM DATBLYGU STAFF CYLLID



**Alex Thomas**
Partner Busnes Cyllid

Ymunodd Alex â'r GIG fel hyfforddai rheolaeth ariannol ym 1991 a chyflawnodd statws cyfrifydd siartredig gyda CIPFA.

Ers hynny mae Alex wedi mwynhau nifer o flynyddoedd yn gweithio yn y GIG ar draws De Cymru ac wedi elwa o ehangder ac amrywiaeth y rolau y mae gyrfa ym maes cyllid y GIG yn eu cynnig.

Yn gynnar yn ei yrfa bu Alex yn rheoli'r broses o gaffael cyfriflyfr ariannol a datrysiad cyflogres Cymru gyfan cyn symud i rolau uwch arweinyddiaeth ariannol o fewn timau rheoli gwasanaethau. Daeth llwyddiant yn y rolau hyn o'r awydd i ddysgu am y gwasanaeth ac i chwilio am gyfleoedd i gefnogi newidiadau sy'n helpu timau i reoli eu hadnoddau'n well.

Rhan o bortffolio presennol Alex yw rheoli rhaglen Datblygu Staff Cyllid y Bwrdd Iechyd ac mae ei brofiad, ei frwdfrydedd, a'i barodrwydd i gyflwyno dulliau newydd yn allweddol i ddatblygiad ein tîm cyllid yn y dyfodol



**Alexis Jones**
Cyfrifydd Cefnogi Penderfyniadau

Dechreuodd Alexis ei gyrfa o fewn maes Cyllid GIG Cymru yn 2015 pan ymunodd â'r tîm Rheoli Cyfrifon Canolog ar ôl treulio sawl blwyddyn yn gweithio yn yr Is-adran Gwybodeg. Ers hynny mae Alexis wedi gweithio o fewn timau Cynllunio a Pherfformiad Ariannol a thimau Partneriaid Busnes Cyllid er mwyn datblygu ei gwybodaeth a'i phrofiad.

Yn ystod ei hamser yn y swyddi yma astudiodd Alexis ar gyfer ei chymhwyster proffesiynol a daeth yn aelod o Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA) yn 2021.

Fel cyfrifydd newydd gymhwyso, mae Alexis yn awyddus i ddatblygu ac annog y rhai sydd am astudio ac sydd eisoes yn astudio drwy gynnig cymorth, cyngor ac anogaeth.

## ADRAN CYLLID BIPAB

Mae Adran Cyllid BIPAB yn rhan o Gyfarwyddiaeth Cyllid a Chaffael Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'n cynnwys dros 100 o gydweithwyr sy'n gweithio mewn timau ac mae'n ymdrechu i arwain, galluogi a chefnogi'r sefydliad a rhagori o ran cyllid a gwasanaethau.

Mae Adran Cyllid BIPAB wedi'i strwythuro drwy dimau Canolfannau Rhagoriaeth a Phartneriaid Busnes Cyllid i ddarparu cyngor a gwybodaeth effeithlon, effeithiol ac amserol:

- Systemau a Gwasanaethau Ariannol
    - Systemau Cyllid Busnes a Llywodraethu, Gwasanaethau Ariannol a Chyfrifyddu Ariannol, Rheoli Cyfrifon Canolog a Chostio a Gwrth Dwyll
- Strategaeth Ariannol, Cynllunio a Chomisiynu
    - Cynllunio Ariannol a Pherfformiad, Cyllid Cyfalaf, Cyllid Strategol ac Arloesi a Chomisiynu a Chontractio
- Timau Partner Busnes Ariannol a Thîm Gwybodeg Busnes a Gwerth
    - Cefnogi'r Gyfarwyddiaeth Gofal Iechyd Parhaus, y Cyfarwyddiaethau Corfforaethol, y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol a'r Cyfarwyddiaethau Gofal Eilaidd Mewn Ysbytai. Mae eu rolau'n cynnwys gwaith traws-sefydliadol mewn meysydd fel Gofal Brys, Arbenigeddau Llawfeddygol a Phediatreg. Maent hefyd yn rhoi mewnbwn cyllid wrth i lwybrau gofal gael eu datblygu.

Mae staff cyllid BIPAB yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gostio achosion busnes ac enghreifftiau diweddar yw Ysbyty Athrofaol y Faenor (GUH) yng Nghwmbrân a'r Canolfannau Iechyd a Lles yng Nghasnewydd a Thredegar.

Mae staff Cyllid BIPAB hefyd yn gwneud y gwaith modelu ariannol sydd ynghlwm â chynlluniau staffio mewn cyfleusterau iechyd newydd megis Uned Gofal y Fron Unedig Ysbyty Ystrad Fawr a'r Uned Ganser yn Ysbyty Neuadd Nevill yn y Fenni.

Mae staff Cyllid BIPAB yn defnyddio gwybodaeth busnes i fonitro a rhagweld cost meddyginiaethau a roddir gan feddygon teulu ac mewn ysbytai ac maent hefyd yn arwain y gwaith o gyflwyno system olrhain offer digidol yn seiliedig ar godau bar.

Mae holl staff ABUHB yn cefnogi darparu hyfforddiant cyllid ar gyfer rheolwyr nad ydynt yn ymwneud â chyllid ac yn cefnogi lleoliadau gwaith ar gyfer ein rhaglenni hyfforddi staff cyllid.



## PRENTIS CYLLID MEWNOL

Mae’r brentisiaeth hon yn gyfle unigryw i feithrin gwybodaeth am y GIG a chyflawni cymhwyster Lefel 2 a Lefel 3 Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddu (AAT). Ar ôl cwblhau AAT Lefel 3, cynigir y cyfle i brentisiaid aros ar y cynllun er mwyn dilyn AAT Lefel 4.

Bydd pob prentis yn cael anwythiad cynhwysfawr, hyfforddiant ffurfiol a’r cymorth a’r arweiniad sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

Mae ein Prentisiaid Cyllid Mewnol yn elwa o: -

- Ennill cyflog tra'n astudio
- Cefnogaeth fugeiliol ac adolygiadau datblygiad personol rheolaidd
- Ennill gwybodaeth am brosesau cyllid o fewn y Bwrdd Iechyd
- Darparu cymorth ariannol ar draws timau a gwasanaethau amrywiol
- Derbyn hyfforddiant a chael gwybodaeth am systemau electronig y GIG
- Ennill profiad o'r GIG er mwyn deall y gwahanol wasanaethau a ddarperir i'n cymuned leol.

Mae angen i brentisiaid fod yn ymrwymedig i gwblhau'r cymhwyster AAT a bod â diddordeb yn y GIG. Ar ôl cwblhau’r brentisiaeth, mae’n bosibl y bydd cyfleoedd yn codi i barhau i weithio o fewn Adran Gyllid BIPAB a gwneud cais i gael cymorth gyda phecyn astudio pellach i ddod yn gyfrifydd cwbl gymwys.



## RHAGLEN AR GYFER GRADDEDIGION A NODDIR GAN RWYDWAITH 75

Mae'r rhaglen ar gyfer graddedigion a noddir gan Rhwydwaith 75 yn cael ei rhedeg gan Brifysgol De Cymru (PDC) ac mae'n cyfuno lleoliadau gwaith ac astudio rhan-amser ar gyfer gradd mewn Cyfrifeg a Chyllid.

Mae'r rhaglen yn gynllun 5 mlynedd sydd wedi'i dylunio gyda'r nod o sicrhau fod y rheiny sy'n rhan ohoni'n ennill gradd mewn Cyfrifeg a Chyllid ac yn elwa o raglen o leoliadau gwaith wedi'u teilwra ar draws yr ystod eang o adrannau sy'n rhan o Cyllid BIPAB.

Yn ystod y tymor, mae prentisiaid Rhwydwaith 75 yn mynychu'r brifysgol 2 ddiwrnod yr wythnos a'u lleoliad gwaith 3 diwrnod yr wythnos. Y tu allan i amser tymor, mae prentisiaid Rhwydwaith 75 yn mynychu eu lleoliad gwaith 5 diwrnod yr wythnos.

Pan fydd prentisiaid Rhwydwaith 75 mewn lleoliadau gwaith, maent yn gweithio'n unol â'r un telerau ac amodau â'n staff cyflogedig. Cefnogir prentisiaid Rhwydwaith 75 yn ariannol trwy gynllun bwrsariaeth a weinyddir gan Brifysgol De Cymru.

Mae prentisiaid Rhwydwaith 75 yn cymhwyso'r cysyniadau cyfrifyddu y maent yn eu dysgu fel rhan o'u cwrs gradd cyn gynted ag y byddant yn eu dysgu. Mae hyn yn caniatáu iddynt adeiladu profiad ymarferol yn ogystal â gwybodaeth ddamcaniaethol yn ystod eu prentisiaeth.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd yn codi i barhau i weithio o fewn Cyllid BIPAB ac i wneud cais i gael cymorth gyda phecyn astudio pellach i ddod yn gyfrifydd cwbl gymwys.

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen hon ewch i wefan Prifysgol De Cymru.



## RHAGLEN LLEOLIADAU PRIFYSGOL

Mae'r cynllun hwn wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr prifysgol sydd wedi cwblhau 2il flwyddyn eu gradd yn y maes Cyllid ac sy'n dymuno treulio blwyddyn mewn cyflogaeth fel rhan o gwrs 4 blynedd.

Mae'n gyfle gwych i fyfyrwyr prifysgol gael profiad amhrisiadwy o fewn maes Cyllid GIG Cymru cyn cwblhau eu gradd a chychwyn ar yr yrfa y maent wedi'i dewis.

Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn cael anwythiad cynhwysfawr, hyfforddiant ffurfiol yn ogystal ag arweiniad a chymorth er mwyn eu galluogi i integreiddio'n gyflym o fewn ein hadran gyllid.

Hyd yma, mae lleoliadau wedi bod gyda'n timau Partner Busnes Cyllid lle mae cyfranogwyr yn dysgu pob agwedd ar Bartneru Busnes Cyllid a chael profiad o weithio ochr yn ochr â staff clinigol y Bwrdd Iechyd a rheolwyr gwasanaethau gweithredol.

Rydym wedi sefydlu perthnasoedd gyda'r prifysgolion a restrir isod er mwyn hyrwyddo ein rhaglen a hysbysebu ein cyfleoedd.

- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Caerfaddon
- Prifysgol Bryste

Byddant yn gweithio yn y lleoliad am o leiaf 9 mis, a gallant ymestyn y cyfnod i hyd at 12 mis.



## RHAGLEN RHEOLAETH ARIANNOL AR GYFER GRADDEDIGION ACADEMI CYLLID GIG CYMRU

Mae Rhaglen Rheolaeth Ariannol ar gyfer Graddedigion Academi Cyllid GIG Cymru yn gynllun 3 blynedd sy'n rhoi'r cyfle i feithrin Sgiliau Rheolaeth Ariannol ac Arwain tra'n astudio ar gyfer cymhwyster cyfrifeg proffesiynol.

Mae'r cynllun yn cynnig pecyn astudio cynhwysfawr ochr yn ochr â rhaglen ddysgu sy'n seiliedig ar waith. Ei diben yw cyflwyno'r rheiny sy'n cymryd rhan i heriau sy'n wynebu adrannau cyllid gweithredol o fewn yn GIG.

Y meini prawf ar gyfer ymgeisio ar gyfer y rhaglen yw gradd 2:2 (mewn unrhyw bwnc) sydd wedi ei chwblhau erbyn mis Medi y flwyddyn y mae'r sawl sy'n ymgeisio eisiau mynediad i'r rhaglen. Mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn gymwys i weithio yn y DU.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd yn codi i barhau i weithio o fewn Adran Gyllid BIPAB I

gael rhagor o wybodaeth am y cynllun ewch i wefan yr Academi Gyllid .





# BWRDD IECHYD PRIFY
# ANEURIN BEVA

## MANYLION CYSWWLT

Am manylion pellach ynglyn a ymuno y BIPAB neu unrhyw o ein rhaglenni hyf
tim datblygu staff os gwelwch yn dda:


Ebost: **ABB.FinanceStaffDevelopment@wales.nhs.uk**

Rhif Ffon: **01633 623860**


Developing Finance
ABUHB

GIG CYMRU NHS WALES